

## Cyfarwyddyd treuliau

### Trosolwg

Mae'r polisi treuliau hwn yn esbonio'r rheolau a'r broses ar gyfer hawlio treuliau teithio a llety rhesymol yn ôl i'r rheini sy'n mynychu Gwrandawiadau Rhagarweiniol Covid-19 y DU.

Mae Deddf a Rheolau'r Ymchwiliad yn caniatáu am gostau rhesymol mynychu gwrandawiadau cyhoeddus i gael eu had-dalu. Mae'r amodau a'r cyfraddau yn y datganiad hwn wedi cael eu gosod, lle'n bosibl, yn unol ag ymarfer cyrff cyhoeddus.

I bwy mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys:

- Tystion
- Cyfranogwyr Craidd a'u cynrychiolwyr cyfreithiol sy'n derbyn dyfarniad o dan adran 40 Deddf Ymchwiliadau 2005, lle caniateir y fath dreuliau o dan delerau'r dyfarniad, ac ar ôl i unrhyw awdurdod blaenorol gofynnol gael ei dderbyn oddi wrth y Cyfreithiwr i'r Ymchwiliad

Bydd tîm cyllid yr Ymchwiliad yn ystyried amgylchiadau unigol, costau rhesymol a phellter teithio wrth benderfynu ar hawliadau am deithio a threuliau eraill. Mae'n rhaid i'r holl dreuliau, megis ar gyfer teithio a llety, gael eu cefnogi gan dderbynebau.

Byddai'n gymorth mawr pe gallai unrhyw hawliadau gael eu cyflwyno o fewn un mis o fynychu gwrandawriad neu gyfarfod cyhoeddus.

Mae'r amodau a'r cyfraddau yn y datganiad hwn wedi cael eu gosod, lle'n bosibl, yn unol ag ymarfer cyrff cyhoeddus. Sylwch, ni fydd yn bosibl i ad-dalu'ch treuliau cyn i unrhyw gyfarfod neu wrandawriad ddigwydd, oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

### Costau teithio

- Mae'n rhaid i hawliadau am gostau teithio gynnwys tocynnau sy'n dangos dyddiad y teithio yn glir, manylion am o ble ac i ble mae rhywun wedi teithio, a'r pris.
- Mae cost teithiau ar drên neu goets yn gallu cael ei ad-dalu ar gyfradd safonol neu docyn economi.

- Lle'n bosibl dylai tocynnau gael eu harchebu mewn da bryd er mwyn i docynnau rhatach gael eu sicrhau.
- Bydd milltiroedd car a beic modur yn cael eu had-dalu ar 45c y filltir.
- Dylid cael cytundeb ymlaen llaw am gostau parcio y disgwylir iddynt gostio dros £10. Mae'r holl dreuliau parcio eraill yn gallu cael eu had-dalu.
- Dylid defnyddio gwasanaethau rheilffordd, trên tanddaearol a bws ar gyfer teithiau yn Llundain a dinasoedd eraill lle mae hyn yn fwy cyfleus, yn gyflymach ac yn gost effeithiol.
- I bobl ag anawsterau symudedd, gall tacsis fod yn fwy priodol na ffurfiau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus. Dylai cymeradwyaeth ymlaen llaw gael ei sicrhau gan y tîm cyllid.
- Bydd cost teithiau awyr yn y DU yn cael eu had-dalu ar gyfer teithio dosbarth economi yn unig. Ni fydd costau teithio o'r tu allan i'r DU yn cael eu had-dalu. Ar gyfer teithio i ac o feysydd awyr Llundain, dylid defnyddio Trenau Tanddaearol Llundain, gwasanaethau cyflym Heathrow, Gatwick a Stansted, Thameslink (ar gyfer Luton neu Gatwick) neu Reilffordd Ysgafn Docklands ar ddosbarth safonol.

### Costau llety

- Bydd y rheini sy'n mynychu gwrandawriad cyhoeddus yn cael eu had-dalu am aros dros nos os ydynt yn byw 1 awr a 45 munud neu fwy i ffwrdd o leoliad y gwrandawriad, Bishop's Bridge Road.
- Mae'n rhaid sicrhau cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm cyllid ar gyfer ad-daliad cyn i unrhyw archebion/cadw ystafelloedd gael eu gwneud.
- Bydd y cyfraddau uchaf canlynol yn gymwys i hawliadau am westy (cyfradd gwely a brecwast) / llety hunanarlwyo.
  - £150 – Llundain (am ystafell ddwbl, dau wely neu sengl)
  - £110 - dinasoedd mawr eraill
  - £100 – Lleoedd eraill (am ystafell ddwbl, dau wely neu sengl)  
Gellir ad-dalu cyfranogwyr sy'n rhannu ystafell yn unig ar y swm uchaf a ganiateir fesul noson fesul ystafell.

### Treuliau cydymaith

- Os oes rhywun yn mynychu cyfarfod neu wrandawriad Ymchwiliad ag angen cydymaith yn gwmni iddo/iddi (megis gweithiwr cymorth neu aelod o'r teulu), gall costau teithio'r unigolyn hwn gael eu had-dalu gan yr Ymchwiliad. Yn y fath achosion, mae'n rhaid i unigolion gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y tîm cyllid.

### Costau bwys a diod

- Ar gyfer teithio yn ystod y dydd, gallwch hawlio £15 am gostau bwyd a diod, a £15 ychwanegol os ydych chi'n aros dros nos.

#### Hawlio'ch arian yn ôl

- Byddwn yn eich had-dalu trwy drosglwyddiad banc i mewn i'ch cyfrif banc personol.
- Mae angen i chi lenwi ffurflen dreulïau, sydd wedi'i hatodi i'ch gwahoddiad i'r digwyddiad.
- Llenwch y ffurflen ac e-bostiwch hi yn ôl i dîm yr ymchwiliad, neu gallwch roi'r ffurflen i aelod o staff yr Ymchwiliad ar y diwrnod. Ni fydd staff wrth law i helpu cwblhau ffurflenni ar y diwrnod.
- Mae'n bwysig eich bod yn cadw'ch tocynnau neu dderbynebau fel y gallwn wneud copiâu.
- Dylai treulïau gael eu had-dalu o fewn 4-6 wythnos

Cyfeiriad e-bost yr Ymchwiliad yw: [contact@coronavirus19.inquiry.gov.uk](mailto:contact@coronavirus19.inquiry.gov.uk)